Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Caerdydd
Dydd Mercher 10 Gorffennaf 2024, 10:30am-12:30pm
Yr Ystafell Las, Pafiliwn Grange,
Gerddi Grange, CF11 7LJ

Yn bresennol	
Aelodau'r Bwrdd:	
Y Cynghorydd Huw Thomas **(Cadeirydd)**	Arweinydd, Cyngor Caerdydd (CC)
Charles Janczewski **(Is-gadeirydd)**	Cadeirydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIP Caerdydd a'r Fro)
Claire Beynon	Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd, BIP Caerdydd a'r Fro
Victoria Legrys	Cyfarwyddwr Rhaglen, Llunio ein Gwasanaethau Clinigol yn y Dyfodol, BIP Caerdydd a'r Fro
Paul Orders	Prif Weithredwr, CC
Louise Bassett	Rheolwr Gweithredol Anghenion Cymhleth a Phartneriaethau, CC
David Letellier	Pennaeth Gweithrediadau Canol y De, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)
Gareth Evans	Rheolwr Grŵp Caerdydd a Chaerffili, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC)
Danny Richards	Prif Uwch-arolygydd, Heddlu De Cymru (HDC)
Ebed Akotia	Rheolwr Canolfan Gwirfoddolwyr, C3SC
Ymddiheuriadau:	
Sarah McGill	Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau, CC
Suzanne Rankin	Prif Weithredwr, BIP Caerdydd a'r Fro
Marie Davies	Cyfarwyddwr Strategaeth a Chynllunio Dros Dro, BIP Caerdydd a'r Fro
Emma Wools	Comisiynydd Heddlu a Throseddu (CHT) De Cymru
Lee Jones	Prif Weithredwr, Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu (SCHTh) De Cymru
Dan Jones	Pennaeth Diogelwch Cymunedol ac Atal Trais, SCHTh
Sheila Hendrickson-Brown	Prif Swyddog Gweithredol, C3SC
Eirian Evans	Pennaeth Uned Gyflenwi Prawf (UGP) y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (GPC)
Zenny Saunders	Dirprwy Gyfarwyddwr Diwygio Hyfforddiant ac Addysg Ôl-orfodol, Llywodraeth Cymru (LlC)
Hefyd yn bresennol:	
Gareth Newell	Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau, CC
Sian Sanders	Pennaeth Cydlyniant a Diogelwch Cymunedol, CC
Abigail Streeter	Swyddog Cynllunio a Gwella, CC
Gareth Harcombe	Rheolwr Ynni a Chynaliadwyedd, CC

Miki Miyata-Lee Dr Ciaran Humphreys	Uwch Swyddog Pobl a Lleoedd, CNC Ymgynghorydd mewn Penderfynyddion Ehangach Iechyd y Cyhoedd, Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC)

Rhif	Eitem Agenda	
1.	**Croeso / Ymddiheuriadau** Dechreuodd y Cadeirydd y cyfarfod a nododd yr ymddiheuriadau fel yr uchod.	
2.	**Cylch Gorchwyl, Cofnodion a Chamau Gweithredu BGC Caerdydd** Cyflwynwyd i'r Bwrdd Gylch Gorchwyl wedi'i ddiweddaru, a oedd wedi'i ddiwygio i egluro'r trefniadau llywodraethu ynghylch sefydlu is-grwpiau BGC Caerdydd, yn ogystal ag adlewyrchu'r fframwaith partneriaeth gwasanaethau cyhoeddus diwygiedig. Roedd Aelodau'r Bwrdd yn fodlon ar y diwygiadau. **Cytunodd y BGC i** gymeradwyo'r Cylch Gorchwyl wedi'i ddiweddaru ar gyfer 2024/25. Nododd y Cadeirydd fod yr holl gamau gweithredu yng nghofnodion y cyfarfodydd blaenorol ar 16 Ebrill 2024 a 14 Mai 2024 wedi'u cwblhau i raddau helaeth. Nodwyd y canlynol: • Bydd diweddariad ar Ofal Iawn, Person Iawn yn cael ei roi yn ystod yr Eitem Diogelwch Cymunedol a Diogelu. • Bydd diweddariad ar ehangu Gwasanaethau Cynhwysiant Iechyd yn cael ei roi yn ddiweddarach yn y flwyddyn. **Cytunodd y BGC i** gymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd blaenorol a gynhaliwyd ar 16 Ebrill 2024 a 14 Mai 2024.	
3.	**Argyfwng Hinsawdd** <u>Datgarboneiddio'r Ddinas a Gwaith y Bwrdd Argyfwng Hinsawdd (BAH)</u> Cyflwynodd Gareth Harcombe ddiweddariad ar ddatgarboneiddio'r ddinas, yn ogystal â gwaith y BAH. Roedd y cyflwyniad yn cynnwys: • Uchafbwyntiau Cynnydd 2023/24 • Heriau • Y Camau Nesaf • Astudiaethau Achos - Arolwg Datgarboneiddio Ystadau - Cynllun Ynni Ardal Leol Caerdydd	

Rhif	Eitem Agenda	
	Yn ystod y cyflwyniad, nodwyd bod y BAH wedi'i sefydlu yn dilyn cyhoeddi Strategaeth Caerdydd Un Blaned (CUB) yn 2021, i alluogi partneriaid gwasanaethau cyhoeddus a rhanddeiliaid eraill y ddinas i rannu arfer gorau a datblygu mentrau ar y cyd mewn ymateb i'r argyfwng hinsawdd. Cytunwyd i ddechrau y byddai'r BAH yn archwilio'r potensial ar gyfer mentrau ar y cyd yn y meysydd canlynol: fflyd a seilwaith allyriadau isel; caffael; ystadau, gan gynnwys plannu coed a rheoli tir; ac ymgysylltiad ar gyfer newid diwylliant. Nodwyd, er bod camau gweithredu'n cael eu gwneud gan bartneriaid - gan gynnwys drwy gynlluniau datgarboneiddio gweithredol unigol - ei bod yn dod yn amlwg bod cyrraedd sefyllfa carbon sero-net yn ymddangos yn heriol a'i bod bron yn sicr na fydd yn digwydd heb fuddsoddiad sylweddol gan y llywodraeth. Pwysleisiwyd bod cyfarfodydd y BAH yn gadarnhaol, bod llawer yn bresennol ynddynt a'u bod yn addysgiadol, yn enwedig o ran cyfnewid gwybodaeth a dysgu. Fodd bynnag, oherwydd trefniadau llywodraethu a gweithredol unigol ar gyfer sefydliadau unigol, hyd yma mae cael ymrwymiad ar y cyd gan sefydliadau i wneud gwaith cydweithredol y tu hwnt i rannu arfer gorau wedi profi'n heriol. Codwyd y pwyntiau canlynol gan Aelodau'r BGC: • Gofynnodd Vicotria Legrys a oedd yr Arolwg Datgarboneiddio Ystadau yn rhoi mewnwelediad o ran effaith, h.y. pa adeiladau, pe baent yn cael eu gwneud yn rhai ynni-effeithlon, a fyddai'n cael yr effaith lleihau carbon fwyaf. Nododd Gareth nad oedd yr arolwg yn mynd i'r lefel hon o fanylder ond y bydd gan bob sefydliad a gwblhaodd yr arolwg ei hierarchaeth/blaenoriaethau ei hun. • Cydnabu'r Cadeirydd bwynt Gareth ynglŷn â'r her o ran ennill ymrwymiad gan sefydliadau i wneud gwaith cydweithredol. Nododd y Cadeirydd fod cefnogaeth o'r gwaith hwn ar lefel strategol ac y byddai'n ddefnyddiol deall pa brosiectau penodol a fyddai'n elwa o/y dylid eu creu drwy ddefnyddio dull cydweithredol, fel y gellir dyrannu adnoddau. • Nododd Gareth fod sbectrwm o brosiectau a fyddai'n elwa o'r math hwn o ddull gweithredu. Er enghraifft, mae'r BAH wedi ystyried cyfleoedd ar gyfer trefniadau depo a rennir. Fodd bynnag,	

Rhif	Eitem Agenda	
	cydnabyddir bod gan bartneriaid ofynion amrywiol - er enghraifft, o ran cyllidebau a strategaethau eiddo - ac nid aelodau'r Bwrdd sy'n gyfrifol am lywodraethu ar gyfer materion o'r fath. • Nododd y Cadeirydd y byddai'n ddefnyddiol pe gellid datblygu papur sy'n nodi rhai o'r materion hyn, yn enwedig o ran eiddo, y gall swyddogion gweithredol gyfeirio ato wrth adnewyddu strategaethau a pholisïau. • Dywedodd Paul Orders fod hyn yn rhywbeth y gallai'r Bwrdd Rheoli Asedau Partneriaeth ei ystyried. **Cam Gweithredu:** • Datblygu papur sy'n amlinellu pa brosiectau penodol a fyddai'n elwa o (neu y dylid eu creu drwy) ddefnyddio dull cydweithredol, yn ogystal â'r materion sy'n atal y gwaith hwn rhag cael ei wneud ar hyn o bryd, gan ganolbwyntio ar eiddo. Cyflwyno'r papur i'r Bwrdd Rheoli Asedau Partneriaeth. <u>Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd</u> Rhoddodd Miki Miyata-Lee gyflwyniad i'r BGC ynghylch Asesiadau o Risgiau Newid Hinsawdd (ARNHau). Nodwyd bod Adran 38 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i BGCau ystyried ARNH diweddaraf y DU wrth baratoi eu Hasesiadau Lles. Daeth dadansoddiad Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) o Asesiadau Lles a gyhoeddwyd yn 2022 i'r casgliad nad oeddent yn ystyried ARNH diweddaraf y DU. Felly, mae fframwaith wedi'i ddatblygu i helpu BGCau i ystyried y risgiau a nodwyd yn ARNH y DU mewn cyd-destun lles lleol. Mae'r fframwaith wedi'i greu gan CNC, mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru (LlC) ac Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) i'w ddefnyddio gan ymarferwyr BGC. Mae'n cynnig proses gam wrth gam ar gyfer asesu risgiau ac ar ôl ei gwblhau, gall lywio camau gweithredu a dulliau addasu lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn well. Nodwyd bod BGCau eraill eisoes yn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn – mae BGC Cwm Taf Morgannwg yn defnyddio dull gweithredu a arweinir gan ymgynghoriaeth, gan ddefnyddio cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin (CFfG). Mae BGC Powys wedi creu tîm ymroddedig i ddatblygu'r gwaith,	**Gareth Harcombe**

Rhif	Eitem Agenda	
	gan ddefnyddio cyllid y CFfG hefyd, tra bod BGC Gwent a BGC Gwynedd ac Ynys Môn yn bwriadu defnyddio Grant Cymorth Rhanbarthol BGC Llywodraeth Cymru i gyllido'r gwaith. O ran cwblhau ARNH ar gyfer Caerdydd, cyflwynwyd sawl opsiwn i'r BGC: 1. Defnyddio'r fframwaith a ddatblygwyd, gan gydnabod bod angen adnoddau, hwyluso a chymorth arwain. 2. Cynnal ARNH heb y fframwaith a cheisio defnyddio adnoddau presennol ac asesiadau o risgiau corfforaethol i greu ein un ein hunain. 3. Cynnal ARNH dros gyfnod hirach drwy ei gynnwys mewn rhaglenni gwaith yn y dyfodol. Codwyd y pwyntiau canlynol gan Aelodau'r BGC: • Nododd Clare Beynon fod BGC Bro Morgannwg hefyd wedi trafod cynnal ARNH yn ddiweddar. Awgrymwyd bod hyn yn rhywbeth y gellid ei wneud mewn cydweithrediad ar draws Caerdydd a'r Fro. Roedd partneriaid wedi ymrwymo i ddyrannu adnoddau staffio i gynnal yr asesiad, er eu bod yn cydnabod ei bod yn debygol y bydd angen cyllid ychwanegol. • Nododd y Cadeirydd mai gwraidd y gwaith hwn yw sicrhau bod cynlluniau ymateb unigol yn ddigon cadarn ar gyfer digwyddiadau mwy aml ac eithafol. • Nododd Paul Orders fod y Cyngor yn cydnabod bod angen iddo ddiweddaru ei asesiad o risgiau hinsawdd. Mae gan beidio â chwblhau'r darn hwn o waith amrywiaeth o oblygiadau, yn enwedig o ran cadernid fframweithiau polisi. Awgrymodd Paul y gallai'r BGC edrych ar ddyraniadau'r CFfG ac a oes unrhyw lithriad yn yr hydref. Gellid ei awgrymu fel prosiect rhanbarthol. Pwysleisiodd Paul, os mai dyma'r llwybr y mae'r BGC am ei gymryd, y byddai angen datblygu Cynllun Adnoddau, er mwyn sicrhau y gellid gwneud y gwaith cyn gynted â phosibl, pe bai tanwariant ar gael. • Nododd y Cadeirydd, er bod dull gweithredu yng Nghaerdydd a'r Fro wedi'i awgrymu, fod angen ystyried a oes angen ôl troed ehangach. Nododd y Cadeirydd hefyd fod llawer o waith eisoes wedi'i wneud yn y gofod hwn, a bod angen sicrhau nad yw hyn yn cael ei ddyblygu - er enghraifft, asesiadau o risgiau llifogydd.	

Rhif	Eitem Agenda	
	• Nododd Louise Bassett, yn y lle cyntaf, y byddai'n ddefnyddiol gydgysylltu â'r Fro i ddeall a fyddai'n fodlon edrych ar gyllid CFfG, yn ogystal â deall pa adnodd sydd eisoes ar gael. • Nododd Paul nad yw gofynion deddfwriaethol yn aml yn cyd-fynd â'r risgiau sylfaenol y mae'r ddinas yn eu hwynebu mewn gwirionedd. Gallai'r darn hwn o waith arwain at restr sylweddol o flaenoriaethau, a fyddai'n ddefnyddiol o ran deall lle y dylid canolbwyntio buddsoddiad. • Nododd Charles Janczewski fod angen edrych ar hyn o safbwynt strategol, yn hytrach na sut y bydd yn gweithio'n weithredol. Mae hyn yn rhywbeth y mae angen ei ddatblygu a BIP Caerdydd a'r Fro a fyddai y tu ôl iddo. • Cytunodd Victoria Legrys y byddai'r Bwrdd Iechyd yn ymrwymo i ymgymryd â'r gwaith hwn. O ran yr agweddau ymarferol, mae angen gwybod beth a fydd yn digwydd a phryd, er mwyn sicrhau bod y gwaith yn cael ei ymgorffori yn strategaethau a chynlluniau'r Bwrdd Iechyd. **Cytunodd y BGC** i gynnal Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd, gan ddefnyddio'r fframwaith sydd eisoes wedi'i ddatblygu fel sail ar gyfer y gwaith ac ar gyfer y cwmpas ac y dylid datblygu cynllun adnoddau a chytuno arno rhwng partneriaid.	
4.	**Llunio Lleoedd ar gyfer Lles yng Nghymru** Rhoddodd Dr Ciaran Humphreys friff i'r BGC ynglŷn â'r rhaglen Llunio Lleoedd ar gyfer Lles yng Nghymru. Rhoddwyd gwybod i Aelodau'r BGC fod y rhaglen ddwy flynedd wedi'i datblygu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, mewn partneriaeth â Chyfarwyddwyr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd ledled Cymru a'u timau, ar ôl sicrhau cyllid gan raglen arian grant Llunio Lleoedd y Sefydliad Iechyd. Mae'r rhaglen wedi'i datblygu i gefnogi ymdrechion i leihau anghydraddoldebau iechyd, cyfrannu at y sylfaen dystiolaeth ar weithredu dulliau sy'n seiliedig ar systemau, a hwyluso'r broses o rannu dysgu ar draws gwahanol BGCau yng Nghymru.	

Rhif	Eitem Agenda	
	Bydd y rhaglen yn canolbwyntio ar dair thema sy'n gyffredin ar draws Cynlluniau Lles: argyfwng hinsawdd a natur, tlodi ac anghydraddoldebau a lles cymdogaeth. Ar gyfer pob thema, mae grŵp dysgu wedi'i sefydlu a bydd y cyfranogwyr yn cael eu tywys drwy ffyrdd o weithio, dulliau ac offer meddwl systemau, gyda'r nod o integreiddio'r dysgu yng ngwaith BGCau a llywio'r gwaith o gyflawni Cynlluniau Lles. Cynhaliwyd digwyddiad dysgu deuddydd ym mis Mehefin i gyflwyno cyfranogwyr (a enwebwyd i ddechrau) i'r rhaglen. Bydd gweithdai yn cael eu cynnal yn ddiweddarach ym mis Gorffennaf i bennu 'system o ddiddordeb' ar gyfer pob grŵp dysgu – h.y. maes ffocws o fewn thema pob grŵp dysgu. Nodwyd bod y rhaglen yn cael ei dominyddu gan y Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd; ar ôl pennu pob system o ddiddordeb, byddai'n ddefnyddiol i'r BGC benderfynu pa grwpiau dysgu yr hoffai fod yn rhan ohonynt, ac i sefydliad pob BGC ddewis cynrychiolydd i gymryd rhan yn y rhaglen. Codwyd y pwyntiau canlynol gan aelodau'r BGC: • Gofynnodd Gareth Evans pwy ddylai gymryd rhan, yn ogystal â beth sy'n cael ei ddisgwyl gan y cyfranogwyr. • Nododd Dr Humphreys y byddai'n ddefnyddiol i ystod o swyddogion gymryd rhan - o swyddogion tactegol (er enghraifft, arweinwyr pynciau) i arweinwyr strategol gyda'r gallu i ddylanwadu ar ffyrdd y BGCau o weithio. O ran disgwyliadau, bydd gofyn i'r cyfranogwyr ymuno â phedwar digwyddiad grŵp dysgu y flwyddyn (cymysgedd o ar-lein ac wyneb yn wyneb); integreiddio dulliau ac offer meddwl systemau yn eu BGCau priodol; adlewyrchu a rhannu dysgu; a chymryd rhan mewn gwerthuso. Dywedodd Dr Humphreys ymhellach fod 'cytundeb dysgu' yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, a fydd yn egluro'r hyn a ddisgwylir gan y cyfranogwyr, yn ogystal â gofynion BGCau. • Nododd Victoria Legrys fod cysylltiad clir iawn rhwng y rhaglen a'r hyn a drafodwyd dan yr eitem Argyfwng Hinsawdd - yn enwedig o ran isadeiledd ystadau. • Pwysleisiodd y Cadeirydd bwysigrwydd cydbwyso ffocws y rhaglen, gan sicrhau bod materion trefol yn cael sylw priodol ochr yn ochr â'r rhai sy'n wynebu ardaloedd gwledig. • Nododd Claire Beynon y bydd angen i'r rhaglen aros ar radar y BGC, ac y byddai'n ddefnyddiol i gyfranogwyr y rhaglen roi diweddariadau yng nghyfarfodydd y Bwrdd.	

Rhif	Eitem Agenda	
	Cytunodd y BGC i wneud y canlynol: • Cefnogi dull gweithredu/egwyddorion y Rhaglen Llunio Lleoedd ar gyfer Lles yng Nghymru a datblygu galluedd meddwl systemau o fewn y BGC. • Yn dilyn cadarnhad o'r system o ddiddordeb ar gyfer pob grŵp dysgu, penderfynu ym mha grŵp dysgu yr hoffai fod yn rhan ohono. **Cam Gweithredu:** • Yn dilyn cadarnhad o'r system o ddiddordeb ar gyfer pob grŵp dysgu a phenderfyniad ynghylch pa grŵp dysgu y bydd BGC Caerdydd yn rhan ohono, dylai sefydliad pob BGC enwebu cynrychiolydd i gymryd rhan yn y rhaglen.	**PAWB**
5.	**Adroddiad Blynyddol BGC Caerdydd 2023/24** Cyflwynodd Gareth Newell Adroddiad Blynyddol cyntaf Caerdydd ar gyfer Cynllun Lles Lleol 2023-28. Nodwyd, dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, fod angen i BGCau adrodd am gynnydd yn erbyn eu Cynlluniau Lles mewn Adroddiad Blynyddol. Mae angen i BGCau gyhoeddi eu Hadroddiad Blynyddol cyntaf yn erbyn eu Cynlluniau Lles Lleol ar gyfer 2023-2028 erbyn diwedd mis Gorffennaf 2024. Mae Adroddiad Blynyddol 2023/24 wedi'i ddatblygu gydag arweinwyr grwpiau a byrddau partneriaeth. Mae'n cynnwys trosolwg strategol, fesul Amcan Lles, o waith sydd wedi digwydd dros y flwyddyn ddiwethaf a thueddiadau dangosyddion canlyniadau, gydag atodiadau ategol yn cynnwys diweddariad manwl ar bob blaenoriaeth unigol, yn ogystal ag adroddiad ar y dangosyddion canlyniadau. Mae 'Adroddiad Trosolwg Ymgynghori' diwygiedig, i grynhoi canfyddiadau allweddol ymarferion ymgynghori ac ymgysylltu a gynhaliwyd gan bartneriaid yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, hefyd yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd a bydd ar gael ac yn cael ei ddosbarthu i aelodau'r BGC yn ddiweddarach yn yr haf. **Cytunodd y BGC i wneud y canlynol:** • Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol 2023/24, a'i atodiadau ategol, i'w gyhoeddi, yn amodol ar unrhyw sylwadau gan aelodau'r BGC, gyda sylwadau i'w cyflwyno i Ysgrifenyddiaeth y BGC erbyn dydd Mercher 17 Gorffennaf 2024. • Nodi bod yr iteriad nesaf o'r Adroddiad Trosolwg Ymgynghori yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd a bydd yn cael ei ddosbarthu i aelodau'r BGC yn ddiweddarach yn yr haf.	

Rhif	Eitem Agenda	
6.	**Diogelwch Cymunedol a Diogelu: Diweddariad** <u>Diogelu</u> Cyn y cyfarfod, rhoddwyd diweddariad Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Chwarter 1 2024/25 i aelodau'r BGC. Rhoddodd Sian Sanders drosolwg i'r Bwrdd o flaenoriaethau cyfredol, yn ogystal ag adolygiadau cyfredol. Nodwyd mai'r pwynt allweddol i'w bwysleisio yw bod y Strategaeth Hunan-esgeuluso Oedolion a'r Strategaeth Esgeuluso Plant wedi'u cadarnhau gan y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol; mae gweithdai i lansio'r strategaethau wedi'u cynllunio. <u>Diogelwch Cymunedol</u> *Capasiti Carchardai/Rhyddhau'n Gynnar* Rhoddodd Sian drosolwg i'r Bwrdd o'r Cynllun Rhyddhau Carcharorion yn Gynnar. Yn dilyn cydnabyddiaeth o fwlch capasiti ar unwaith a thymor canolig mewn carchardai, dechreuodd Cynllun Rhyddhau'n Gynnar y Weinyddiaeth Gyfiawnder fis Hydref diwethaf. Mae disgwyl i'r Ysgrifennydd Cyfiawnder gyhoeddi cynlluniau i ehangu'r Cynllun yn fuan, gyda'r disgwyl i'r mesurau brys a ffefrir ganiatáu rhyddhau carcharorion yn awtomatig ar ôl gwneud 40% o'u dedfryd yn hytrach na'r 50% presennol. Bydd penderfyniadau i ryddhau yn seiliedig ar asesiad risg. *Gofal Iawn, Person Iawn* Rhoddodd Sian a'r Prif Uwch-arolygydd Danny Richards ddiweddariad i'r Bwrdd ynghylch y prosiect Gofal Iawn, Person Iawn (GIPI). Mae dull cyflwyno graddol yn parhau. Nodwyd bod Cam 1, ynglŷn â galwadau Pryder am Les, wedi mynd yn fyw ar 26 Chwefror 2024. Amcangyfrifir bod 8,423 o alwadau Pryder am Les wedi dod i law dros yr 16 wythnos ers lansio, gyda chyfradd mynychu o 44% - h.y. aeth yr heddlu i 3,706 o alwadau yn y pen draw. Hyd yma, nid oes unrhyw ddigwyddiad wedi gofyn am ymyrraeth gan Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (SAYH). Bydd Cam 2 – ynghylch naill ai pobl sydd wedi cerdded allan o leoliad gofal iechyd neu sy'n absennol heb ganiatâd o gyfleusterau iechyd – yn mynd yn fyw ar 16 Medi 2024. Fel y camau nesaf, cyn lansio Cam 2, ddiwedd mis Gorffennaf/dechrau mis Awst, caiff gweithdy heddlu/gweithdy lleol ei gynnal i weithio trwy senarios penodol, i nodi polisïau a gweithdrefnau y mae angen eu	

Rhif	Eitem Agenda	
	hadolygu, yn ogystal â gofynion hyfforddiant, ac i gytuno ar drefniadau trosglwyddo lle bo hynny'n berthnasol. Nododd y Prif Uwch-arolygydd Richards y cytunwyd yng nghyfarfod diwethaf y BGC y byddai dadansoddiad yn cael ei gynnal o oblygiadau GIPI ar ganlyniadau cleifion, wedi'i rannu yn ôl grŵp demograffig. Nododd y Prif Uwch-arolygydd Richards nad yw'n bosibl gwneud hyn ar hyn o bryd a gofynnodd i'r cam gweithredu gael ei ddiddymu. Nododd Claire Beynon, er nad yw'r dadansoddeg yn bosibl o bosibl, ei bod yn bwysig bod effaith GIPI - yn enwedig yr effaith wahaniaethol ar bobl sydd eisoes yn profi anghydraddoldebau - yn cael ei monitro. *Rhaglen Gyswllt Ysgolion Cymru Gyfan* Rhoddodd y Prif Uwch-arolygydd Richards friff i'r BGC ynghylch Rhaglen Gyswllt Ysgolion Cymru Gyfan. Nodwyd y bydd y rhaglen yn parhau ar ffurf addasedig yn ardal Heddlu De Cymru. Bydd Heddlu De Cymru yn cyflwyno fersiwn o bolisi School Beat, gan ganolbwyntio ar gadw pobl ifanc allan o'r system cyfiawnder troseddol a delio â throseddau'n effeithiol pan fyddant yn digwydd mewn ysgolion. *Newid Lleoliad y Gwasanaeth Dyfodol* Gwnaeth Sian y BGC yn ymwybodol o'r ffaith bod angen i'r Gwasanaeth Dyfodol adleoli, yn dilyn diwedd ei brydles. Bydd Ysbyty Brenhinol Caerdydd yn cael ei ddefnyddio fel lleoliad dros dro; fodd bynnag, mae angen cyfle llety tymor hwy. Mae comisiynu cynghrair ar gyfer gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yn cael ei ystyried. **Mudo** Rhoddodd Sian friff i'r BGC ynghylch newid polisi lloches. Nodwyd y canlynol: • Mae cynllun allgludo Rwanda wedi dod i ben – y bwriad yw ailffocysu'n gynharach, gyda Gorchymyn Diogelwch Ffiniau gwell. • Nid yw'r manylion wedi'u cadarnhau eto ond disgwylir y bydd y 102,000 o bobl y cafodd eu ceisiadau am loches eu gohirio/eu gwrthod bellach yn cael eu prosesu drwy'r system loches. • Roedd nifer y cychod bach a gyrhaeddodd ar ei uchaf erioed am 6 mis cyntaf y flwyddyn - 13,000 hyd yn hyn, rhagwelir y bydd 40,000 erbyn diwedd 2024.	

Rhif	Eitem Agenda	
	• Er mwyn osgoi defnyddio gwestai, gellid gweld ail raglen 'Prosesu Lloches Symlach' (PLlS) yn ddiweddarach eleni. Mae ôl-groniad o 27,000 o apeliadau yn parhau o hyd o PLlS 2023-2024.	
7.	**Tasglu Cydraddoldeb Hiliol Caerdydd** Rhoddodd Gareth Newell ddiweddariad llafar i'r BGC ynghylch gwaith Tasglu Cydraddoldeb Hiliol Caerdydd. Mae Adroddiad Cynnydd Diwedd Blwyddyn (2024/24) wedi'i ddatblygu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf yn erbyn pob un o argymhellion y Tasglu, gan gynnwys y dangosyddion perfformiad allweddol a nodwyd gan y tasglu. Ar 11 Mehefin 2024, ailgynullwyd Tasglu Cydraddoldeb Hiliol Caerdydd i ystyried yr adroddiad ac i adolygu'r cynnydd a wnaed. Penderfynwyd yn y pen draw y byddai cyfarfod pellach o'r Tasglu yn cael ei gynnull ym mis Gorffennaf, i gwblhau'r adolygiad o'r cynnydd. Yn dilyn y cyfarfod hwn, bydd Cadeirydd y Tasglu yn ysgrifennu at y BGC i grynhoi asesiad y Tasglu o gynnydd, yn ogystal ag unrhyw argymhellion pellach wrth symud ymlaen. **Cytunodd y BGC i wneud y canlynol:** • Nodi cynnwys yr adroddiad cynnydd; • Ystyried asesiad y Tasglu Cydraddoldeb Hiliol, gan gynnwys argymhellion pellach, ar ôl i'w adolygiad o gynnydd ddod i ben.	
8.	**Unrhyw fater arall** *Partneriaeth Ymgysylltu â Gwasanaethau Cyhoeddus* Amlinellodd Gareth Newell y cynnig yn fyr i sefydlu 'Partneriaeth Ymgysylltu â Gwasanaethau Cyhoeddus' fel is-grŵp o BGCau Caerdydd a Bro Morgannwg, sy'n cyfarfod i drafod, cynllunio a rhannu gweithgarwch ymgysylltu ledled Caerdydd a'r Fro yn benodol. Nodwyd, os bydd yr is-grŵp yn cael ei sefydlu, y bydd cylch gorchwyl yn cael ei ddatblygu. Yn ogystal, byddai'r is-grŵp yn cyflwyno adroddiad blynyddol i'r ddau BGC i dynnu sylw at ei weithgarwch, ei gyflawniadau a'i heriau. Roedd aelodau'r BGC yn gefnogol iawn o'r cynnig. **Cytunodd y BGC i** gymeradwyo datblygu dull partneriaeth o ymgysylltu â'r cyhoedd drwy ddatblygu is-grŵp 'Partneriaeth Ymgysylltu â Gwasanaethau Cyhoeddus'.	

Rhif	Eitem Agenda	
	Cam Gweithredu: • Sefydliad pob BGC i enwebu gweithiwr ymgysylltu proffesiynol i eistedd ar y Bartneriaeth Ymgysylltu â Gwasanaethau Cyhoeddus.	**PAWB**